Oxfam Cymru: Polisi'r Gymraeg – cynllun gweithredu

Beth yr ydym yn ei wneud?	Beth y mae angen ei wneud?	Terfyn amser a Chyfrifoldeb
Diweddaru staff a gwirfoddolwyr Oxfam yn rheolaidd ynghylch datblygu Polisi'r Gymraeg ar gyfer Oxfam.	Trefnu sesiwn friffio wyneb yn wyneb ar gyfer holl staff Oxfam Cymru a gwirfoddolwyr Oxfam Cymru ynghylch y Polisi. Hefyd, nodi unrhyw hyfforddiant ychwanegol y mae ei angen Canolbwyntio ar: y polisi cyfryngau cymdeithasol cyfarchion ffôn dwyieithog gohebiaeth ddwyieithog	Mawrth/Ebrill 2020 Cyflwyno'r Polisi i Staff Oxfam Cymru Yn gyfrifol: Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu Oxfam Cymru
Cynllunio digwyddiad lansio mewnol ym mhrif swyddfa Oxfam GB yn Rhydychen ar 2 Mawrth 2020.	Cadarnhau cynlluniau, gwahoddiadau ac unrhyw adnoddau dwyieithog y bydd eu hangen ar gyfer stondin.	Chwefror-Mawrth 2020 Yn gyfrifol: Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu Oxfam Cymru
Mynd i'r afael â'r angen am gyfarchion dwyieithog dros y ffôn gydag Oxfam Cymru	Diweddaru negeseuon ar beiriannau ateb Hyfforddiant i sicrhau bod yr holl staff yn gallu ateb galwadau gyda chyfarchion dwyieithog, a'u bod yn gwneud hynny Creu gweithdrefn ar gyfer delio â galwadau Cymraeg/ffonio 'nôl yn Gymraeg Defnyddio adnoddau ar-lein 'Cymraeg yn y Gweithle' y Ganolfan Dysgu Cymraeg, sy'n rhad ac am ddim, i helpu staff Oxfam Cymru i ddysgu sut i gyfarch cwsmeriaid yn ddwyieithog.	Hyfforddiant ym mis Mawrth/Ebrill 2020 Yn gyfrifol: Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu Oxfam Cymru Gwahodd aelod o staff y Ganolfan Dysgu Cymraeg i Swyddfa Oxfam Cymru i gyflwyno cyrsiau ac adnoddau ar-lein rhad ac am ddim i'r staff. Yn gyfrifol: Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu Oxfam Cymru

Llofnodion e-bost a negeseuon Allan o'r Swyddfa Gweithio gyda Phennaeth Brand Oxfam GB i sicrhau blwch llofnod e-bost dwyieithog	Creu templed ar gyfer yr holl staff a gwirfoddolwyr yn Oxfam Cymru i lunio llofnodion e-bost, negeseuon allan o'r swyddfa a graffigwaith dwyieithog, os oes rhai ar gael.	Mawrth/Ebrill 2020 Yn gyfrifol: Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu Oxfam Cymru a Phennaeth Brand Oxfam Cymru
Rhannu'r weithdrefn amlinellol ar gyfer ymateb i negeseuon e-bost/llythyrau Cymraeg â'r staff		
Cydnabod yr angen am ragor o gyfieithwyr allanol i helpu Oxfam Cymru i gyflawni ei waith o dan y Polisi newydd hwn o ran y Gymraeg.	Bydd rhestr gyfredol Oxfam o gyfieithwyr Cymraeg cymeradwy yn parhau i gael ei adolygu gan Reolwr Swyddfa Oxfam Cymru – er mwyn sicrhau ein bod yn cael gwasanaethau costeffeithiol o ansawdd uchel.	Medi 2020 Yn gyfrifol: Rheolwr Swyddfa Oxfam Cymru
Cydnabod yr angen am gyllideb ar gyfer adnoddau Cymraeg a dwyieithog ar gyfer Oxfam Cymru, er mwyn cyflwyno ein gwaith i'r cyhoedd.	Cadarnhau'r gyllideb sydd ar gael – ar gyfer adnoddau printiedig/digidol. Roi cyngor i staff Oxfam Cymru ynghylch sut y gellir ac y dylid gwario a rhannu'r gyllideb yn ystod pob blwyddyn ariannol. Creu a chomisiynu adnoddau.	Medi 2020 Yn gyfrifol: Pennaeth Oxfam Cymru Parhaus Yn gyfrifol: Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu Oxfam Cymru gyda chymorth Rheolwr Ymgyrchoedd ac Eiriolaeth Oxfam Cymru
Gwefan/Cyfryngau Cymdeithasol/Blogiau		
Addysg Nodi'r angen am gymorth ac adnoddau ychwanegol i gyflwyno gweithdai mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg	Ymchwilio i gyllidebau/ bartneriaid a allai gynnig cymorth i gyflawni gwaith Oxfam yn ddwyieithog mewn ysgolion yng Nghymru Archwilio'r broses o weithio trwy grwpiau gwahanol, er enghraifft Cynrychiolwyr Oxfam.	Medi 2020 Yn gyfrifol: Cynghorydd Addysg Dinasyddiaeth Fyd-eang Oxfam Cymru

Cydnabod yr angen am ddeialog barhaus â staff a gwirfoddolwyr Oxfam Cymru, i drafod unrhyw hyfforddiant neu gymorth ychwanegol y mae eu hangen i gyflawni'r polisi.	Cynnwys y sgwrs am y polisi yn rhan o gyfarfodydd un i un Oxfam Cymru er mwyn nodi unrhyw rwystrau neu hyfforddiant angenrheidiol	Yn mynd rhagddo er Lansiad y Polisi Yn gyfrifol: Rheolwyr llinell Oxfam Cymru
Adborth Nodi pwysigrwydd cynnal deialog rhwng staff a gwirfoddolwyr Oxfam Cymru ynghylch unrhyw broblemau/faterion o ran rhoi'r polisi ar waith	Rheolwyr llinell Oxfam Cymru i wahodd staff a gwirfoddolwyr i anfon negeseuon e-bost/drafod y materion hyn mewn cyfarfodydd un i un/roi'r materion ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd tîm.	Yn mynd rhagddo er Lansiad y Polisi Yn gyfrifol: Rheolwyr llinell Oxfam Cymru
Adroddiad Blynyddol ar y Polisi Nodi pwysigrwydd adroddiad blynyddol i'w rannu'n rhyngwladol ac yn allanol ag eraill, gan gynnwys Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, ynghylch cynnydd blynyddol.	Trefnu grŵp ffocws blynyddol gyda staff a gwirfoddolwyr Oxfam Cymru i drafod y datblygiadau. Llunio adroddiad blynyddol i'w gyhoeddi ar wefan Oxfam Cymru.	Chwefror 2021/2022/2023 Yn gyfrifol: Pennaeth Oxfam Cymru Ebrill 2021/2022/2023 Yn gyfrifol: Pennaeth Oxfam Cymru